# Prosiect Rheoli Perygl Llifogydd Porthmadog

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Rhifyn 1 | Ionawr 2023



**Llifogydd ym Mhorthmadog yn ystod Storm Desmond yn 2015**
Cydnabyddiaeth: Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu (NPAS)

## Diweddariad ar y Prosiect

**Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn gweithio i ddod o hyd i atebion rheoli perygl llifogydd hirdymor ar gyfer Porthmadog a Thremadog. Byddwn hefyd yn chwilio am gyfleoedd amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd ehangach.**

Drwy gydol 2022, rydym wedi bod yn diweddaru ein model llifogydd er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r perygl o lifogydd. Gan ddefnyddio'r canllawiau diweddaraf, cofnodion llif afonydd sydd ar gael ynghyd â ffotograffau a dynnwyd yn ystod gaeaf 2015, rydym yn gallu rhagweld perygl llifogydd nawr ac yn y dyfodol, gan roi ystyriaeth i'r pwysau cynyddol o ganlyniad i newid hinsawdd.

Mae'r model yn dangos bod mwy o gartrefi a busnesau mewn perygl o Afon Glaslyn, Y Cyt ac o'r môr. Mae hyn yn destun pryder i bob un ohonom, a dyna pam y mae CNC yn canolbwyntio ar ddod o hyd i atebion cynaliadwy i reoli'r perygl llifogydd.

Cyn diweddaru'r model, yn 2021, anfonwyd llythyrau gennym at gartrefi a busnesau yn gofyn am eich profiadau o lifogydd. Mae hyn wedi ein helpu i ddeall eich pryderon yn well a'r hyn sy'n wirioneddol bwysig i chi. Ymhlith yr awgrymiadau hyd yma mae uwchraddio'r amddiffynfeydd presennol yn y dref a chael gwared ar ddŵr llifogydd yn gyflymach o'r ardal.

Mae ein dealltwriaeth ddiweddaraf o berygl llifogydd yn cyflwyno'r her o gynnal lefelau cyfredol o amddiffyniad rhag llifogydd. O'r arfordir, rydym yn rhagweld cynnydd o hyd at un metr yn lefel y môr yn ystod y ganrif nesaf. O afonydd, rydym yn disgwyl lefelau uwch o ddŵr llifogydd a llifogydd eithafol aml. Ceir arwydd y bydd llwybrau llif newydd yn cael eu creu, ac o bosibl y byddant yn osgoi'r amddiffynfeydd llifogydd presennol ac yn cysylltu'r Cyt ac Afon Glaslyn.

**Gan weithio gyda'r gymuned a gyda'n partneriaid, byddwn yn asesu opsiynau i reoli'r bygythiad hwn ac yn gweithio tuag at nodi opsiwn sy'n cael ei ffafrio yn 2023.**

# Cefndir

**Saif y rhan fwyaf o Borthmadog ar dir isel sydd mewn perygl o lifogydd o Afon Glaslyn, Y Cyt ac o'r môr. Cafodd y tir ei adennill o'r môr ym 1811 pan adeiladwyd y Cob ar draws Traeth Mawr gan William Maddocks.**

Mae'r Cob wedi atal symudiad naturiol dŵr llanw tuag at i mewn rhag cyrraedd Pont Aberglaslyn. Mae'r bont hon wedi'i lleoli wyth cilomedr (pum milltir) tua'r tir, i'r gogledd, ger Beddgelert.

Mae cynnal lefel heddiw o amddiffyniad rhag llifogydd yn her ac mae'r amddiffynfeydd presennol yn cael eu rhoi dan bwysau cynyddol oherwydd digwyddiadau tywydd sy'n digwydd yn amlach.


Mae ein model llifogydd yn dangos bod hyd at 345 eiddo preswyl, a 105 eiddo masnachol yn wynebu risg o lifogydd o'r afon, a hynny gyda'r amddiffynfeydd presennol yn eu lle.

Bydd hyn yn cynyddu i 825 eiddo preswyl a 220 eiddo masnachol yn y dyfodol wrth ystyried y cynnydd yn lefel y môr a newid yn yr hinsawdd.

Nid yw'r rhagfynegiadau hyn yn ystyried llifogydd o ffynonellau eraill ee. dŵr wyneb, draeniau carthffosiaeth a dŵr daear, sydd oll yn rhan o gyfrifoldebau sefydliadau eraill.



**Cob Crwn a Gatiau Llanw Afon Glaslyn**




**Amddiffynfeydd Presennol Rhag Llifogydd**

## Allwedd

- Gatiau Llanw Afon Glaslyn
- Drysau Llanw'r Cyt
- Argloddiau arfordirol
- Argloddiau afonydd
- Strwythur y cei
- Argloddiau eraill
- Cyrsiau dŵr
- Ardaloedd adeiledig

# Beth rydym yn ei wneud

## Edrych ar opsiynau er mwyn lleihau perygl llifogydd

**Gan ddefnyddio'r holl dystiolaeth a gasglwyd hyd yma a thrwy weithio'n agos gyda'r gymuned, byddwn yn asesu opsiynau i leihau'r perygl o lifogydd i gartrefi a busnesau o afonydd a'r môr. Bydd y meini prawf y byddwn yn eu defnyddio i asesu'r opsiynau hyn yn cynnwys gwerth am arian, cynaliadwyedd ac adeiladadwyedd.**

Yn ogystal â dyletswyddau cadwraeth a draenio yn yr ardal, mae gan CNC hefyd gyfrifoldeb o leihau perygl llifogydd, gan roi blaenoriaeth i bobl a chartrefi.

Gan ddefnyddio'r model llifogydd diweddaraf, byddwn yn asesu beth fyddai'n digwydd yn naturiol neu a fyddai opsiynau penodol yn cael eu datblygu.

Er enghraifft, codi amddiffynfeydd, adeiladu amddiffynfeydd newydd, gweithio gyda natur ac addasu strwythurau i ymdopi â'r dirwedd newidiol.

Byddwn hefyd yn edrych ar gyfleoedd ar gyfer hamdden a bywyd gwyllt, a'r hyn y gallai Awdurdodau eraill ei wneud i reoli'r perygl o lifogydd dŵr wyneb a llifogydd dŵr daear.

Bydd y gymuned leol a rhanddeiliaid yn chwarae rhan allweddol yn y broses. Byddwn yn cynnal digwyddiadau ymgynghori cyhoeddus, yn darparu pwyntiau cyswllt lleol, ac yn creu ffordd o rannu syniadau a sylwadau gydag CNC.

# Diweddariad model llifogydd


**Yn ddiweddar rydym wedi cwblhau diweddariad model llifogydd ar gyfer ardal Porthmadog, Tremadog a Glaslyn.**

Mae'r model yn rhagweld llifogydd mwy sylweddol i gartrefi a busnesau o afonydd a'r môr, hyd yn oed â'r amddiffynfeydd presennol yn eu lle. Mae perygl o lifogydd o afonydd a'r môr yn cael ei ddiffinio yn ôl tri chategori, Risg Uchel, Risg Ganolig a Risg Isel.

Mae allbwn y model (ar y dde) yn cynrychioli risg isel o afonydd. Mae risg isel yn golygu bod gan yr ardal hon siawns o lifogydd rhwng 0.1% ac 1% bob blwyddyn.

## Allwedd

- Ffin y model
- Rhannau wedi'u modelu o'r Brif Afon
- Ardal perygl llifogydd (risg isel)



# Camau nesaf
## Ymgynghoriad cyhoeddus ar ddod

**Cyn bo hir byddwn yn cynnal cyfres o ddigwyddiadau ymgynghori cyhoeddus i drafod canfyddiadau'r model llifogydd a beth mae'r rhain yn ei olygu i chi. Rydym hefyd am glywed eich barn ar opsiynau posibl o ran rheoli perygl llifogydd a sut y caiff y rhain eu hasesu.**

Os gwelwch yn dda, dewch i ymweld â ni yn un o'r digwyddiadau hyn lle bydd aelodau o dîm y prosiect wrth law i ateb eich cwestiynau. Unwaith y bydd yr ymgynghoriad wedi'i lansio, byddwn hefyd allan yn y gymuned yn codi ymwybyddiaeth ac yn trafod opsiynau. Os gwelwch ni, da chi, dewch i siarad â ni.

# Ymgynghori
## Manylion digwyddiad

**Y Ganolfan - Canolfan Gymunedol, Stryd Fawr, Porthmadog, LL49 9LU:**

- **Dydd Iau 26 Ionawr 2023**
  rhwng 13:30 a 18:30 o'r gloch
- **Dydd Gwener 27 Ionawr 2023**
  rhwng 09:30 a 14:00 o'r gloch

Caiff ein gwefan ei diweddaru drwy gydol y prosiect gyda newyddion ac ymatebion i Gwestiynau Cyffredin.

Bydd rhagor o wybodaeth am yr ymgynghoriad cyhoeddus a sut i gyflwyno adborth ar-lein ar gael ar ein gwefan pan gaiff yr ymgynghoriad ei lansio ar 17 Ionawr 2023.

# Cadw cyswllt
## Sut i gymryd rhan

**Rydym eisiau clywed gennych er mwyn i ni allu deall ymhellach effaith llifogydd ar y gymuned ac ystyried a datblygu opsiynau sy'n rheoli perygl llifogydd orau yn y dyfodol.**

Rydym hefyd am archwilio cyfleoedd amgylcheddol a chymdeithasol ehangach y gellir eu datblygu fel rhan o unrhyw opsiwn sy'n cael ei ffafrio ar gyfer y prosiect hwn.

Hyd yn oed os ydych wedi gwneud hynny o'r blaen, cysylltwch â ni, os gwelwch yn dda, os hoffech gael gwybod mwy ac i rannu eich barn a'ch sylwadau.

**Andrew Basford (Dysgwr Cymraeg)**
**Rheolwr Prosiect**
**03000 65 3846**

**Sharon Parry (Siaradwr Cymraeg)**
**Swyddog Cefnogi Tîm Prosiect**
**03000 65 5264**

**risgllifogydd.porthmadog@grasshopper-comms.co.uk**

**Cyfoeth Naturiol Cymru, Swyddfa Bangor, Maes y Ffynnon, Gwynedd, LL57 2DW**

Mae rhagor o wybodaeth am y prosiect ar gael yn:
**www.cyfoethnaturiol.cymru/risgllifogyddporthmadog**